COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL PEN-Y- BONT AR 0GWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 20 CHWEFROR 2025 AM 14:00 O'R GLOCH

Presennol:

Y Cynghorydd RM Granville – Y Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | S Easterbrook | H Griffiths | S J Griffiths |
| D T Harrison | D M Hughes | M R John | J Llewellyn-Hopkins |
| A Wathan | | | |

Presennol yn Rhithwir:

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | C L C Davies | W J Kendall | J E Pratt |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Cadw Rheolaeth ar Ddatblygu ac Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm – Cymwysiadau Bychain |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Robert Morgan | Prif Swyddog – Rheoli Datblygu Priffyrdd |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Cynllunio a Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |
| Philip Thomas | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – y dwyrain |
| Leigh Tuck | Prif Swyddog – Rheoli Datblygu Priffyrdd |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 96. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth yr Aelodau canlynol:-<br><br>Y Cynghorwyr M L Hughes, MJ Kearn, R J Smith ac R Williams. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 |

## 97. Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Gwnaed y datganiadau o fuddiannau canlynol:-<br><br>Y Cynghorydd S Easterbrook – buddiant personol yn eitemau 6 a 7 ar yr Agenda, gan fod ganddo aelodau o'r teulu yn byw yng nghyffiniau safleoedd y ceisiadau.<br><br>Y Cynghorydd M John – buddiant personol yn eitemau 6 a 7 ar yr Agenda fel Aelod y Ward ar gyfer yr ardal a buddiant rhagfarnus yn eitem 7 ar yr Agenda. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 |

## 98. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Y siaradwyr cyhoeddus ar y ceisiadau cynllunio a grybwyllir isod oedd y canlynol:-<br><br>P/24/788/HAZ - Y Cynghorydd T Thomas, Aelod y Ward; Y Cynghorydd I Curzon, Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr; L Till ac C Owen (gwrthwynebwyr y cais) a G Corbett, Marubeni Europower ac E Avery, Gwasanaethau Ymgynghori RPS.<br><br>P/23/218/FUL - Y Cynghorydd T Thomas, Aelod y Ward; Y Cynghorydd I Curzon, Cyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr; L Till, C Owen ac N Kern (gwrthwynebwyr y cais) a T Nishino ,Marubeni Europower a D Barry, Gwasanaethau Ymgynghori RPS. |

| | |
|---|---|
| | Siaradodd y Cynghorydd M John hefyd ar P/23/218/FUL, ac ar ôl hynny gadawodd y cyfarfod ar unwaith yng ngoleuni'r ffaith ei fod wedi datgan buddiant rhagfarnus yn y cais hwn yn gynt yn y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 |

**99. Taflen Ddiwygiadau**

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod y Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried y diwygiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau hwyr a diwygiadau yr oedd angen eu cynnwys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 | |

**100. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu**

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad safonol Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yn amlinellu Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 | |

**101. P/24/788/HAZ – Tir ar Stad Ddiwydiannol Brynmenyn, Brynmenyn, CF32 9TX**

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod Caniatâd Sylweddau Peryglus yn cael ei roi ar gyfer y cais uchod, yn amodol ar yr Amod yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau:- |

| | |
|---|---|
| | Cynnig:<br><br>Caniatâd Sylweddau Peryglus ar gyfer storio a defnyddio ym mhroses ddiwydiannol Atodlen 1 Rhan 2 Rhif 15 (Hydrogen) yng Nghyfleuster Cynhyrchu Hydrogen arfaethedig HyBont.<br><br>Yn amodol ar gynnwys yr Amod bellach a ganlyn y cytunodd yr Aelodau arni yn y cyfarfod:-<br><br>‘2. Yn ystod oes weithredol y Cyfleuster Cynhyrchu Hydrogen, rhaid cadw stocrestr bob amser i gofnodi cyfanswm yr Hydrogen sy'n bresennol ar y safle ar unrhyw un adeg ar unrhyw ddiwrnod penodol. Bydd y stocrestr ar gael i'w harchwilio o fewn un (1) diwrnod gwaith i gais ysgrifenedig ddod oddi wrth yr Awdurdod Sylweddau Peryglus.<br><br>Rheswm: Sicrhau nad oes mwy na’r uchafswm o hydrogen a ganiateir ar y safle ar unrhyw un adeg.’<br><br>Sylwer:<br><br>Ni chymerodd y Cynghorydd M John ran yn y bleidlais mewn perthynas â’r cais hwn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 |

**102. P/23/218/FUL – Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 9TX**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn dileu’r Cyfarwyddyd Dal a gyhoeddwyd dan Erthygl 18 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 sy’n atal rhoi caniatâd cynllunio, rhoi caniatâd i’r cais uchod, yn amodol ar yr Amodau (a’r Nodiadau) y manylwyd arnynt yn adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau:<br>Cynnig:<br><br>Datblygu cyfleuster cynhyrchu hydrogen gwyrdd gydag electrolyswyr, storfa hydrogen, gorsaf ail-lenwi hydrogen, adeilad gweinyddol, is-orsaf a generadur wrth gefn; gyda mynediad, cylchrediad, lle parcio, goleuadau, wal 8 metr o uchder, ffensys diogelwch, tirweddu caled a meddal, a seilwaith draenio (pibell hydrogen wedi'i hepgor) ar dir ym Mrynmenyn. Ynghyd â gosod gorsaf gynhyrchu trydan ffotofoltäig solar (fferm solar), yn cynnwys paneli solar ar y ddaear, gwrthdroyddion, unedau trawsnewid, adeilad rheoli a storio, |

| | |
|---|---|
| | offer switsio ac is-orsaf; gyda mynediad, cylchrediad, lle parcio, goleuadau, ffensys diogelwch, tirweddu caled a meddal, seilwaith draenio a lle adeiladu caeedig dros dro, ar dir ym Mryncethin. Y safleoedd i gael eu cysylltu drwy gyfrwng gwifren drydan danddaearol.<br><br>Sylwer:<br><br>Ni chymerodd y Cynghorydd M John ran yn y bleidlais mewn perthynas â'r cais hwn, oherwydd y buddiant rhagfarnus yr oedd wedi ei ddatgan yn gynt yn y cyfarfod. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 20 Chwefror 2025 |

Er mwyn gwylio'r ddadl bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon, os gwelwch yn dda, (*to be inserted after document translated*)

Daeth y cyfarfod i ben am 17:54.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**